

GWEDDIAU

Defnyddiwch y gweddïau hyn ar unrhyw adeg y dymunwch yn ystod eich gwasanaeth. Mae adnod o'r Beibl yn rhagflaenu pob gweddi ac mae gan rai gyflwyniad dewisol y gellir ei ddefnyddio i arwain at y weddi ei hun.

GWEDDI 1:

'Nid yw'r llyfr cyfraith hwn i adael dy enau; yr wyt i fyfyrïo ynddo ddydd a nos, er mwyn iti ofalu gwneud y cyfan sy'n ysgrifenedig ynddo. Yna byddi'n llwyddo yn dy ffyrdd ac yn ffynnu.'
Josua 1.8 (BCND)

Gweddi: Ein Harglwydd Dduw, diolch am dy arweiniad trwy'r Ysgrythurau. Helpa ni i chwilio dy air yn rheolaidd i gael mwy o ddirnadaeth ynghylch pwy wyt ti a mwy o ddealltwriaeth o dy ewyllys ar gyfer pob un ohonom. Rho awydd cynyddol inni ddarllen, ufuddhau, a dod o hyd i faeth trwy'r Beibl. Amen.

GWEDDI 2:

'O Dad, os wyt ti'n fodlon, cymer y cwpan hwn oddi wrthyf. Ond gwnele dy ewyllys di, nid fy ewyllys i.' Luc 22.42 (BCND)

Cyflwyniad dewisol: Mae gweddi Crist yng ngardd Gethsemane yn cynnwys dwy agwedd. Y cais gonest'gwna hyn i mi', ond yna'r ychwanegiad hollbwysig 'gwna beth rwyt ti eisïau'. Beth allwn ni ei ddysgu pe byddem ni'n gweddïo'n onest a hefyd gyda rhyddid llwyr, yn union fel y gwnaeth Iesu?

Gweddi: Dad nefol, arwain bob un ohonom i ddilyn esiampl weddigar dy fab, a roddodd bopeth er mwyn inni gael bywyd tragwyddol. Helpa ni i ddilyn ôl traed ein Gwardwr a phrofi gweddi a chymdeithas agos â thi. Amen.

GWEDDI 3:

'Ond os na wnewch hyn, byddwch yn pechu yn erbyn yr ARGLWYDD, a chewch wybod y bydd eich pechod yn eich dal.' Numeri 32.23 (BCND)

Cyflwyniad dewisol: Efallai y bydd pechod yn teimlo'n dda am ennyd, ond mae'n arwain at wahanu oddi wrth Dduw. Atgoffodd Moses y bobl trwy'r Gyfraith nad yw Duw yn colli dim.

Gweddi: Diolch i ti am fod yn Dduw sy'n gweld pawb ac sy'n gweld popeth ydyn ni. Molwn di, er dy fod yn gweld da a drwg, am i ti anfon dy fab i achub a rhyddhau pob un ohonom. Helpa ni i gerdded mewn ufudd-dod cariadus. Amen.

GWEDDI 4:

'Derbyniwch helm iachawdwriaeth a chleddyf yr Ysbryd, sef gair Duw. Ymrowch i weddi ac ymbil, gan weddio bob amser yn yr Ysbryd. I'r diben hwn, byddwch yn effro, gyda dyfalbarhad ym mhob math o ymbil dros y saint i gyd.' Effesiaid 6.17-18 (BCND)

Os ydych yn rhannu'r adnodd 'Storïau ysbrydoledig', fe welwch weddïau byr ar ddiwedd pob stori. Gweddiwch dros y bobl yn y storïau os gwelwch yn dda, ond cofiwch hefyd fod yna lawer mwy o bobl yn union fel nhw, ledled y byd. Mae gan bawb eu stori eu hunain, hyd yn oed os nad ydyn nhw'n cael cyfle i'w rhannu, ac yn sicr mae angen gweddi ar bawb.

Gweddi: Dduw, diolch i ti am glywed ein gweddïau bob amser. Hyderwn dy fod yn ein caru ni ac yn gweithio popeth gyda'i gilydd er daioni i'r rhai ohonom sy'n dy garu di. Arwain pob un ohonom yn ein gweddïau, Arglwydd, trwy nerth yr Ysbryd Glân. Helpa ni i weddio yn aml fel y gallwn ni wneud gwahaniaeth parhaol ym mywydau pobl eraill trwy ein heiriolaeth drostyn nhw. Amen.